24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Sir Gâr Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Cyfeirnod: RH/JB
Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2022

Annwyl Chris,

Ffurflen Flynyddol 2021-22 Harbwr Porth Tywyn

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 14 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 dyma fy adroddiad ar Ffurflen Flynyddol Harbwr Porth Tywyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. I grynhoi mae'r gweithdrefnau hyn yn gofyn i ni ystyried a yw'r datganiad blynyddol o gyfrifon:

- wedi ei baratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigyrau'n cytuno i'r cofnodion sylfaenol y maent wedi'u paratoi arnynt ac yn gyson â thrafodion a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac yn
- cyfansymio'n gywir.

Adroddiad archwilio ar y ffurflen flynyddol yn ymwneud â Harbwr Porth Tywyn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022:

Yn amodol ar y ddau gam canlynol yn cael eu cwblhau'n foddhaol, byddwn yn gallu ardystio'r ffurflen flynyddol a chyhoeddi ein hysbysiad o ran cwblhau'r archwiliad.

- Cymeradwyo’r ffurflen flynyddol 2021-22 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd i’w wneud yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2022.
- Ar 31 Hydref 2022, gall etholwyr llywodraeth leol arfer eu hawliau o dan adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch cyfrifon y cyd-bwyllgor neu i wneud gwrthwynebiadau i gyfrifon y cyd-bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Os bydd unrhyw faterion yn codi o'r broses hon byddai angen i ni ystyried y rhain cyn gallu ardystio ffurflen flynyddol y cyd-bwyllgor.

Ar ôl i'r camau hyn gael eu cwblhau i’n boddhad, gallwn cadarnhau'r canlynol:

'Ar sail ein hadolygiad ac yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a geir yn y Ffurflen Flynyddol yn unol ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw gan beri pryder nad yw deddfwriaeth a gofynion rheoleiddio perthnasol wedi eu bodloni.'

Materion eraill

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yr eiddoch yn gywir

Richard Harries

o blaid ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru